

# BLOG BRO blog #3 Chwefror 2016

*Helo gyd-ddisgyblion annwyl!*

Ymddiheuriadau am y bwlch cyfathrebu trwy 'Blog Bro' dros y misoedd diwethaf. Mae'r Prif Swyddogion a Blwyddyn 13 wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn pendroni dros ddewisiadau Prifysgol.

Mae gennym, felly, lawer o newyddion i rannu gyda chi! Dechreuwn, credwch neu beidio nôl ym mis Rhagfyr. Unwaith eto eleni, denodd y Ffair Nadolig nifer o bobl i'r ysgol. Roedd gan y 6ed tair stondin sef Groto Santa wrth gwrs, cwis P4C yn ceisio dyfalu llefydd nodweddiadaol Cymru, gemau Wii ac wrth gwrs 4 stondin mawr y llysoedd. Dyma waith cyntaf Penaethiaid y Llys sef helpu staff i drefnu a gwerthu nwyddau a bod yn rhan o'r bwrlwm. Cewch chi'r cyfle, pan fyddwch chi yn y 6 ed i gyfrannu hefyd, mae'n llawer o sbort fel y cewch weld. Noson cyn y Ffair, fe wnaeth yr holl Chweched fwynhau'r traddodiad o'r Wledd Nadoligaidd flynyddol yn Ffoslas. Cawsom fwyd bendigedig, dawns ac adloniant gwerth chweil!

Fe welodd Ionawr gig mawreddog Prosiect 4 Cymraeg cyntaf 2016, gyda bandiau Bro Myrddin Jaffro, Captain Smith, Adwaith ac Ysgol Sul

yn rhannu eu cerddoriaeth wych. Roedd yn noson hwylus iawn ac mae P4C yn brysur yn trefnu'r gig nesaf. Yn ogystal â'r gerddoriaeth Gymraeg yma, fe aethom i Wobrau'r Selar yn Chwefror i weld Captain Smith ac Ysgol Sul yn perfformio a Swnami yn sgubo'r prif wobrau.



Yn yr ysgol, gwisgodd pawb wisg ffansi cymeriad allan o gartwn gyda'r staff yn gwneud tipyn mwy o yndrech na ni! Mr Hayes fel ci, Miss Hammond fel Malificent, Gary Thomas fel Batman a Mrs Nia Lewis yn Sali Mali ardderchog. Cododd yr achlusur dros £300 ar gyfer elusen ac fe fydd y Pwyllgor Dyngarol yn sicrhau bod elusennau lleol yn elwa o'n ymdrechion.



Oeddech chi'n un o'r rhai lwcus a dderbyniodd un o'r cannoedd o rosynnod a ddanfonwyd ar Ddydd San Ffolant? Fel Prif Swyddogion fe gafon ni gyfanswm o .... 0!

Bu sawl un ohonom ar drip i Lundain i weld Billy Elliot ac eraill i Awstria ar gyfer y daith sgio blynyddol. Ond ydyn ni'n bobl lwcus. Aeth llond bws ohonom i stiwdio'r BBC yn Llandaf fel cynulleidfa i'r rhaglen "Jonathan", profiad a hanner. Cofiwch fwynhau'r triapiau yma bobl hyd yn oed triapiau bach a rhai mawr, mae'n nhw'n creu eich atgofion a'r gyfer y dyfodol.

Trefnodd P4C, funud olaf Dwmpath Dawns yn y Neuadd i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Roedd 58 o'r 6ed yno ac 8 aelod o flwyddyn 8! Dro nesaf bobl, welwn ni chi yno am bromenâd.

Tan tro nesaf, gobeithio yn fwy cyson o nawr ymlaen tra'n symud i fewn i gyfnod arholiadau pwysig Aaaaaaaaarg!!!

*Hwyl fawr am y tro, o ie, a phasg hapus!*